



Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 18 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Argyfwng Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

Newyddion

Cylchlythyr Chwefror

Afonydd glanach, rheoleiddio cryfach, gwell atebolrwydd: Cymru'n paratoi cynllun newydd ar gyfer llywodraethu dŵr.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Newyddion Gweithredu ar Hinsawdd



Gweithredu ar
Hinsawdd Cymru
Climate
Action Wales

[Cylchlythyr](#)



Cylchlythyr

Gwahoddiad: Cefnogi addasu i'r hinsawdd a gwydnwch gwasanaethau yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru](#) ym mis Hydref 2024, ac mae'n cydnabod, er bod ystod eang o weithgarwch ar y gweill ar draws sefydliadau a sectorau i fynd i'r afael â risg hinsawdd ac addasu, y gallai rhai peryglon gael eu mapio a'u deall yn well nag eraill.

Er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru i nodi beth allai'r mesurau cymorth mwyaf effeithiol ac effeithiol fod i helpu sefydliadau i ddeall a rheoli risg hinsawdd, rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn sesiwn ymgysylltu fer a fydd yn cael ei hwyluso gan [Partneriaethau Lleol](#).

Bydd y sesiwn hon yn gyfle i chi rannu eich safbwyntiau ar gynnydd, capasiti a bylchau gwybodaeth, a rhannu'r hyn sydd ei angen ar eich sefydliad / sector i'ch galluogi i wneud penderfyniadau effeithiol ac ymyriadau amserol i reoli risg hinsawdd a chyflawni camau addasu ar gyfer gwasanaethau a chymunedau. Mae'n bwysig ein bod yn cael ystod eang o safbwyntiau, felly mae'r gwahoddiad hwn yn ymestyn ar draws pob maes gwasanaeth, y tu hwnt i swyddogion hinsawdd.

Bwriad y sesiynau yw archwilio meysydd lle gallai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ei hadnoddau orau i gefnogi'r sector cyhoeddus i addasu i'r effeithiau newid hinsawdd. Bydd allbynnau'r sesiynau hyn yn cael eu defnyddio i lywio gwaith pellach gan Lywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru.

Darperir dyddiadau ac amseroedd y sesiynau ymgysylltu isod. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r e-bost hwn er mwyn cadarnhau eich bod yn gallu mynychu neu gallwch ddewis trwy'r ddolen [hon](#) os gwelwch yn dda. Os ydych chi'n teimlo y byddai cydweithiwr mewn gwell sefyllfa i fynychu, yna mae croeso i chi ddanfôn y gwahoddiad ymlaen atynt ar gyfer RSVP.

Os na allwch fynychu sesiwn ar-lein ac yr hoffech chi barhau i gymryd rhan a rhannu eich barn a'ch safbwyntiau, ymatebwch i'r e-bost hwn os gwelwch yn dda a byddwn yn anfon dolên atoch i'r cwestiynau trafod i chi eu cwblhau a'u dychwelyd atom.

Sesiynau ymgysylltu* (Atebwch i'r e-bost hwn gan nodi pa sesiwn yr hoffech fynychu neu dewiswch drwy'r [ddolên hon](#) os gwelwch yn dda.)

1. Awdurdodau Lleol (1): Dydd Mawrth 24 Chwefror, 10:00 – 11:00
2. Awdurdodau Lleol (2): Dydd Mercher 4 Mawrth, 11:00 – 12:00
3. Addysg Uwch: Dydd Llun 2 Mawrth, 13:00 – 14:00



System Rheoli Gwastraff Clyfar

Mae'n bleser gan Cadwch Gymru'n Daclus gyhoeddi ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â [System Rheoli Gwastraff Clyfar Bigbelly](#). Mae'r system wedi bod yn y DU ers 2008 ac mae wedi ei brofi ei fod yn gwneud y canlynol :-

- *Dileu biniau sy'n gorlifo, lleihau problemau pl?u a chreu mannau cyhoeddus mwy croesawgar*
- *Lleihau eich Allyriadau CO2 hyd at 70%*
- *Lleihau eich casgliadau gwastraff hyd at 80%*

Gall cynnyrch Bigbelly gael ei gynllunio i'ch gofynion penodol chi a gall wneud cyfraniad sylweddol at eich cynaliadwyedd a'ch ymrwymadau ailgylchu. Mae'n bleser gan Cadwch Gymru'n Daclus gyhoeddi ei fod wedi sicrhau **cynnig cyflwyniadol, heb ymrwymiad, AM DDIM** hyd at ddiwedd Mawrth 2026, sydd yn cynnwys:

- cyfarfod ymgynghori ac ymweliad safle gyda thîm Bigbelly Bin
- archwiliadau biniau am ddim
- argymhellion yngylch ble, a pha fath o finiau Bigbelly fyddai orau i'w defnyddio
- cyfnod prawf o 3 mis ar gyfer hyd at 20 o finiau 'amlapio' (*chi fydd yn dylunio'r brandio*)
- Ymweliadau gwasanaeth a glanhau rheolaidd am ddim
- Mynediad am ddim i'r feddalwedd rheoli CLEAN a rhybuddion 'llawnder'
- Adroddiad prawf yn pwysleisio eu heffaith ac argymhellion i'r dyfodol

Rwyf wedi cynnwys mwy o wybodaeth am eu hamrywiaeth o finiau, yn cynnwys astudiaethau achos, a fideo cyflwyniadol [Dewch i Gwrdd ? Th?m Future Street UK | Pwy Ydym Ni a Beth Rydym yn ei Wneud](#)

Os byddai gennych ddiddordeb yn cwrdd ? Bigbelly i drafod ein cynnig yn fanylach, rhowch wybod i mi a gallwn eich cyflwyno. Byddai unrhyw wybodaeth y gallwch ei rhoi am eich heriau presennol yn ymwneud ? biniau/sbwriel, ac unrhyw gwestiynau sydd gennych yn ddefnyddiol hefyd.

Louise.tambini@keepwalestidy.cymru

Llyfryn

Cyflwyniad

Canllaw i aelodau etholedig ar gydsynio seilwaith

CANLLAWIAU

Prosiectau seilwaith arwyddocaol (SIP): canllaw i aelodau etholedig ar gydsynio seilwaith

Sut y gall aelodau etholedig ymgysylltu â'r broses cydsynio seilwaith ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol.

Rhan o:

[Prosiectau seilwaith
arwyddocaol \(SIP\):
canllawiau a Ceisiadau
cynllunio](#)

Sut y gall aelodau etholedig ymgysylltu a'r broses cydsynio seilwaith ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol

Ddogfen Canllaw

Canllawiau cynllunio strategol ar gyfer Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Gwastadeddau Gwent (Polisi 9 Cymru'r Dyfodol)

Ysgrifennwn i'ch hysbysu bod Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau Cynllunio Strategol Drafft ar gyfer Gwastadeddau Gwent.

Mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi Gwastadeddau Gwent fel Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol o dan Bolisi 9. Yn unol â'r polisi hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Canllawiau Cynllunio Strategol drafft, ac yn dymuno ymgynghori arnynt, i gryfhau'r broses o weithredu Polisi 9 a sicrhau dull cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gynllunio ar draws y Gwastadeddau. Ar ôl eu mabwysiadu, bydd y Canllawiau'n ategu Cymru'r Dyfodol, ac ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru byddant yn berthnasol wrth baratoi cynlluniau datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol i sicrhau bod penderfyniadau cynllunio ar draws y Gwastadeddau yn cefnogi amgylchedd gwydn, yn adfer rhwydweithiau ecolegol ac yn sicrhau manteision hirdymor i natur a chymunedau.

Mae'r dogfennau Ymgynghori gan gynnwys y Canllawiau, Yr Adroddiad Amgylcheddol Drafft (a'r Crynodeb Annhechnegol) a'r Adroddiad Ymgynghori, i'w gweld yn:

<https://www.llyw.cymru/canllawiau-cynllunio-strategol-ar-gyfer-ardal-adnoddau-naturiol-cenedlaethol>

Byddem yn annog yr holl randdeiliaid i gyfrannu eu barn ar y Canllawiau Drafft a'r Adroddiad Amgylcheddol Drafft. Gallwch ymateb drwy'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i e-bostio i'r cyfeiriad canlynol: planconsultations-h@llyw.cymru.
- Cwblhau'r ffurflen ar-lein.

Gellir dod o hyd i'r ddwy ffurf uchod yn: <https://www.llyw.cymru/canllawiau-cynllunio-strategol-ar-gyfer-ardal-adnoddau-naturiol-cenedlaethol>

Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng **17 Chwefror 2026** a **31 Mawrth 2026** am 4pm.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Thîm Gwastadeddau Gwent y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ar: planconsultations-h@llyw.cymru.



Ombwdsmon Ombudsman

Cymru • Wales

Cynllun Strategol Drafft ar gyfer 2026-2029

Ysgrifennwn ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i roi gwybod i chi ein bod wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus heddiw ar ein Cynllun Strategol drafft ar gyfer 2026-2029.

Gweler ynghlwm lythyr gan Michelle Morris, yr Ombwdsmon, yn eich gwahodd i rannu eich barn.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad, gan gynnwys sut i ymateb, ar gael ar ein gwefan: <https://gbr01.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A%2F%2Fwww.ombwdsmon.cymru%2Fymgyngghoriadau-ombwdsmon%2Fymgyngghoriad-ar-ein-cynllun-strategol-drafft-2026-2029%2F&data=05%7C02%7Cicadwallader%40onevoicewales.wales%7C79055b5a1bd94342782d08de6e428bb3%7C28654e0966a54e75af7bcfb8697bea58%7C0%7C0%7C639069429259498271%7CUnknown%7CTWEPbGZsb3d8eyJFbXB0eU1hcGkiOnRydWUsIlYiOiIlwLjAuMDAwMCIlIAiOiJXaW4zMilskFOIjojTWFPbClslldUljoyfQ%3D%3D%7C0%7C%7C%7C&sdata=b3Jmwd6nQsLflYEilvq3zY4KDVDwGwel0cgMI5G1MkQ%3D&reserved=0>

NODER: Gofynnwn yn garedig i unrhyw gynghorau a fydd yn cyflwyno ymatebion i gofio ein swyddog polisi, **Catrin Jones**, hefyd ar: **cjones@onevoicewales.wales**.

Llythyr i'n Prif Weithredwr

Gwebinar – Oes o Wydnwch: Ymgysylltu â Llifogydd drwy Bob Cam o'r Oes – 25 Mawrth 2026

Mae gwydnwch yn tyfu pan fydd cymunedau'n cael eu hymgysylltu drwy gydol eu bywydau.

Mae gwydnwch llifogydd yn gryfaf pan fydd dysgu, parodrwydd a gweithredu yn digwydd o'r cyfnod pan fo plentyn, drwy'r glasoed, ac ymlaen i henaint.

Mae gwydnwch llifogydd yn datblygu dros amser, ac fe'i siapir gan sut mae pobl yn dysgu, yn profi risg, ac yn cefnogi ei gilydd ar draws gwahanol gyfnodau bywyd. Ond yn rhy aml, mae ymgysylltu'n canolbwyntio ar un rhan o'r gymuned, gan golli cyfleoedd i greu gwydnwch tymor hir a rennir. Bydd y gwe-binar hwn yn archwilio sut y gall ymgysylltu sy'n briodol i gyfnodau bywyd – o blant ifanc a phobl ifanc i rieni, oedolion sy'n gweithio, a phobl hŷn – greu dulliau cynhwysol ac amlddengeneradol o baratoi ar gyfer llifogydd. Pan fydd ymgysylltu'n dechrau'n gynnar ac yn addasu drwy gydol gwahanol gyfnodau bywyd, mae'n helpu i:

- Adeiladu ymwybyddiaeth gynaliadwy
- Grymuso teuluoedd a chymunedau i weithredu
- Cryfhau parodrwydd
- Cefnogi gwydnwch tymor hir sy'n wreiddiedig mewn profiad bywyd

Ymunwch â'n siaradwyr, a fydd yn tynnu ar achosion o'r **Flood Resilience Innovation Project** yn y DU i rannu enghreifftiau ymarferol o sut mae sefydliadau'n ymgysylltu â chymunedau mewn ffyrdd sy'n cydnabod anghenion, rolau a gallu sy'n newid dros amser.

Dyddiad: 25 Mawrth 2026, 1pm–2.30pm (amser y DU)

Cofrestru: drwy'r ddolen MS Teams

<https://gbr01.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A...>

Hyfforddiant y Met Office

Efallai y bydd rhai ohonoch sy'n gweithio gyda grwpiau Ymateb Cymunedol a'r sector gwirfoddol hefyd â diddordeb i wybod bod y Met Office wedi cyhoeddi Prospectws cwrs ar wahân ar gyfer 2026, sy'n anelu at Ymatebwyr Cymunedol/gwirfoddolwyr. Mae'r cyrsiau hyn “wedi'u hanelu at y rhai sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli mewn cymunedau lleol i'w gwneud yn fwy gwydn i ddigwyddiadau tywydd eithafol.”

Newidiadau i gyfyngiadau gwleidyddol ar swyddi mewn cyngorau cymuned, Pwyllgorau Cydgaeledig Corfforaethol, ac awdurdodau lleol

Sefyllfa Statudol: Mae adran 65 o Ddeddf Etholiadau a Chorfforedig (Cymru) 2024 yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i ychwanegu bod person sy'n dal swydd sy'n gyfyngedig yn wleidyddol o dan Gyngor Cymuned, pwyllgor cydgaeledig corfforaethol neu awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr yn anghymwys i ddod yn aelod neu barhau'n aelod o Gyngor Cymuned neu Dref. Mae'r diwygiad hefyd yn rhoi eglurhad pellach ynghylch pwy sy'n cael ei ystyried fel rhywun sy'n dal swydd sy'n gyfyngedig yn wleidyddol o dan gyngor cymuned (adran 65(3)).

Mae'r diwygiad hefyd yn ymestyn darpariaethau eraill yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i gynghorau cymuned a thref, yn benodol y rheiny sy'n ymwneud â rhoi a goruchwyllo eithriadau rhag cyfyngiadau gwleidyddol (adran 65(4)), y cyfyngiadau ar absenoldeb â thâl ar gyfer cyflawni dyletswyddau awdurdod lleol (adran 65(5)) a'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau mewn negodiadau staff (adran 65(6)).

Daw'r ddarpariaeth hon i rym o 6 Mai 2027.

Nodyn

Yn ymwneud â pha swyddi sy'n swyddi sy'n gyfyngedig yn wleidyddol, fel sy'n deillio o Ddeddf Etholiadau a Chorfforedig (Cymru) 2024. Mae adran 65(3), sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn nodi mai'r rhain yw:

- (a) "swyddog cyflogedig sydd â chyfrifoldeb, at ddibenion adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, am weinyddu materion ariannol y Cyngor Cymuned;
- (b) person sy'n dal swydd gyflogedig sydd, ar hyn o bryd, wedi'i nodi gan y Cyngor Cymuned ..."

O dan (a) uchod, mae hyn yn cynnwys clerod neu Swyddogion Cyllid Cyfrifol, os mai nhw yw'r swyddog dynodedig adran 151.

Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r bwriad i glerod fod yn anghymwys i fod yn Aelodau o'r Senedd (o'r Gorchymyn Anghymhwys Senedd Cymru 2025). Y diben yw osgoi gwrthdaro buddiannau lle mae person yn swyddog cyflogedig (niwtral) mewn un cyngor, ond yn aelod etholedig (o bosibl mewn rôl wleidyddol plaid) mewn cyngor arall neu yn y Senedd.

Bydd unrhyw ganllawiau'n cael eu cynhyrchu gan y Comisiwn Etholiadol ond nid ydynt ar gael ar hyn o bryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2027; y canllaw mwyaf diweddar sydd ar gael yw [Etholiadau Lleol yng Nghymru | Comisiwn Etholiadol](#).

Cylchlythyr y Comisiynydd: Chwefror 2026


Mae dolen i gylchlythyr diweddaraf y Comisiynydd isod, sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith dros y misoedd diwethaf yn creu newid cadarnhaol i bobl hŷn.

[Cylchlythyr y Comisiynydd: Chwefror 2026](#)

I gael rhagor o wybodaeth am waith y Comisiynydd ewch i <https://comisiynyddph.cymru>, neu dilynwch ni ar X / Facebook / LinkedIn

Werth ffeindio amser i'w wyllo ar wefan Un Llais Cymru:

Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:



Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.


Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael

Mwy o
Fanylion

.....

Nodiadau Datblygu Ymarfer:




Nodiadau Datblygu Ymarfer :

Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cyngorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

Nodau Datblygu Ymarfer i
gyd iw gweld yma

Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:



Cyngorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch 3
clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol

Cliciwch yma i llogi lle

SWYDDI

Swyddi gwag yn y sector Cyngorau Cymuned a Thref:



Swyddi Gwag:

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

Gweler pob swydd gwag yma

Mwy o
Fanylion

Swyddi Llywodraeth Cymru



Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am gynrychiolydd i Gymru ar y Panel Ymgynghorol Arbenigol

Dim swyddi i'w hysbysebu ar hyn o bryd



Cadwch y Dyddiad

**Gwella ein Lleuedd
Lleol – Astudiaethau
Enghreifftiol a
Diweddariadau
Cynllunio o Gymru**

**Dyddiad: 19
Mawrth 2026,**

**Cynhadledd
Cenedlaethol a
Seremoni Gwobrau
Un Llais Cymru**
1af GORFFENNAF 2026

**Cynhadledd Arfer
Arloesol Un Llais
Cymru**
30ain MEDI 2026

10:30yb–1:30yp (ar-lein:Teams)

£53 yr un

["Gwella ein Lleoedd Lleol – Astudiaethau Enghreifftiol a Diweddariadau Cynllunio o Gymru" - Un Llais Cymru](#)

Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan Un Llais Cymru:

Newyddion am Brosiect Argyfwng Costau Byw

Ymunwch â'n Fforwm Argyfwng Costau Byw



Mae ein Fforwm Argyfwng Costau Byw yn ofod ar-lein cydweithredol i Gynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru ofyn cwestiynau, rhannu syniadau, a dysgu o brofiadau ei gilydd.

Mae cynghorau sy'n cymryd rhan eisoes yn cael mynediad at wybodaeth ddefnyddiol megis diweddariadau cyllid a grantiau, enghreifftiau o arferion da, astudiaethau achos, canllawiau, pecynnau cymorth, ac adnoddau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw.

Dyma enghraifft nodweddiadol o'r math o adnodd sy'n cael ei rannu ar y fforwm, Astudiaeth Achos Hwb Cynnes Cyngor Tref Prestatyn.



Ymunwch â Fforwm Argyfwng Costau Byw

Ymunwch â Ni



Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Cysylltwch â Rachel, Sam & Jen: Bioamrywiaeth@unllaiscymru.cymru

Gwobrau Rheoli Cymunedol Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Cymru 2026.


Dydd Mercher 25 Chwefror 2026 am 1pm.

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn eich gwahodd i ymuno â nhw i ddathlu Gwobrau Rheoli Cymunedol Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Cymru 2026. Bydd y prosiectau hyn o bob cwr o Gymru yn cael eu datgelu a'u dathlu am eu gwaith gwirfoddol nodedig wrth gael mynediad at dir a rheoli mannau gwyrdd yn eu cymunedau.

Mae'r Seremoni Wobrwy wedi'i recordio ymlaen llaw a bydd ar gael ar ei Sianel YouTube o 13:00 ar 25 Chwefror 2026.

Os na allwch ymuno am y lansiad, mae'r ffilmiau ar gael i'w 'gwyltio eto' ar yr un dudalen YouTube ynghyd â'r clystyrau rhanbarthol o ffilmiau.

[Manylion llawn yma](#)



Un Llais Cymru / One Voice Wales

24c Stryd Y Coleg,
Rhydaman
SA18 3AF



Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru . Dylid nodi os ydych yn dad tanysgrifio mi fyddwch yn colli mynediad i'r ddau fersiwn Cymraeg a Saesneg a'r cylchlythyr . Cysylltwch a kbrown@unlliascymru.cymru am cymorth efo hyn.

[Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe](#)

